# Ymweld â thŷ rhent prefiat - rhestr wirio

Lluniwyd y rhestr wirio hon i'ch helpu i gael atebion i gwestiynau pwysig pan fyddwch yn edrych am dŷ rhent preifat.

Gall fod yn ddigon hawdd anghofio mân fanylion am eiddo unigol pan fyddwch wedi gweld sawl un, felly cofiwch fynd â chopi o'r rhestr wirio gyda chi bob tro y byddwch yn ymweld ag eiddo. Yna bydd gennych gofnod i'ch helpu i gymharu manteision ac anfanteision pob eiddo.

Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i chi benderfynu lle i fyw.

## 1 Lleoliad

a) Yw'r ardal yn gyfleus i chi a'ch teulu? A yw'n agos at ffrindiau a theulu, ysgolion, y gweithle?

Ydy Nac ydy

b) Os ydych chi'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, a oes safle bws gerllaw?

Oes Nac oes

c) A yw'r siopau lleol a'r cyfleusterau cymunedol eraill yn diwallu eich anghenion?

Ydyn Nac ydyn

d) A fyddech chi'n teimlo'n ddiogel yno ar eich pen eich hun yn ystod y dydd?

Byddwn Na fyddwn

d) A fyddech chi'n teimlo'n ddiogel yno ar eich pen eich hun gyda'r nos?

Byddwn Na fyddwn

## 2 Cytundeb Tenantiaeth

a) A gawsoch chi gopi o'r cytundeb tenantiaeth?

Do Naddo

b) Am ba mor hir mae'r cytundeb yn para?_______________________________________

c) Faint o rybudd y mae'n rhaid i chi ei roi i'r landlord i ddod â'r denantiaeth i ben?______________

## 3 Diogelwch

a) Oes cloeon da ar y drysau a'r ffenestri?

Oes Nac oes

b) Os yw'r tŷ yn wag, a yw'r tenantiaid blaenorol wedi dychwelyd yr allweddi neu os oes rhywun yn byw yn y tŷ, a oes trefniadau i'r tenantiaid presennol ddychwelyd yr allweddi?

Oes Nac oes

c) A welsoch y Dystysgrif Diogelwch Nwy?

Do Naddo

*Cyn i chi symud mewn, rhaid i'r landlord ddangos Tystysgrif Diogelwch Nwy dan y gyfraith i ddangos bod yr holl offer nwy wedi'u harchwilio a'u profi o fewn y 12 mis diwethaf.*

d) Oes larymau mwg yn yr eiddo, ydyn nhw'n gweithio, a pha fath ydyn nhw?
Oes Yn gweithio Wedi'u pweru gan y prif gyflenwad Wedi'u pweru gan fatris

## 4 Ydych chi'n rhannu'r eiddo â phobl eraill nad ydynt yn aelodau o'ch teulu?

**Os ydych chi'n rhannu'r eiddo â phobl eraill nad ydynt yn aelodau o'ch teulu, mae'r eiddo'n Dŷ Amlfeddiannaeth.** Os felly, rhaid i chi ofyn cwestiynau pellach.

a) Yw'r eiddo wedi'i drwyddedu gyda'r Cyngor?
Ydy Nac ydy

b) Oes gan y landlord dystysgrif ar gyfer y gosodiadau trydan?
Oes Nac oes
*Rhaid i eiddo sydd wedi'i drwyddedu gyda'r Cyngor gael Adroddiad Archwilio Cyfnodol ar gyfer y gosodiadau trydan i ddangos eu bod wedi'u harchwilio o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf.*

c) Oes diffoddwyr tân a blancedi tân yn yr eiddo?
Oes Nac oes

d) Oes drysau tân yn yr eiddo? Ydyn nhw'n gweithio?
Ydyn Nac ydyn

e) Oes allanfa glir yn yr eiddo? A yw'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda?
Ydy Nac ydy

## 5 Nodweddion yr Eiddo

a) Faint o ystafelloedd sydd yn yr eiddo? ______________________________________

b) Oes digon o ystafelloedd gwely yn yr eiddo i ddiwallu anghenion eich teulu?
Oes Nac oes

c) Sut mae'r tŷ yn cael ei wresogi?
______________________________________________________

d) Ydych chi wedi gweld Tystysgrif Perfformiad Ynni yr eiddo?
Do Naddo
*Rhaid i'r landlord neu ei asiant adael i chi weld copi o'r Tystysgrif Perfformiad Ynni pan fyddwch yn ymweld â'r tŷ.* Mae'n dweud wrthych pa mor effeithlon yw'r eiddo o ran ynni, a'r costau rhedeg tebygol.

e) Ydych chi wedi amcangyfrif y costau gwresogi? ____________________________________

f) Yw'r gegin yn diwallu anghenion eich teulu?

Ydy Nac ydy

g) Yw'r ystafell ymolchi yn diwallu anghenion eich teulu?

Ydy Nac ydy

## 6) Rhent

a) Faint yw'r rhent a beth mae'n ei gynnwys?_________________________________

___________________________________________________________________________

b) Pryd a sut byddwch yn talu rhent?____________________________________________

c) Os oes gennych incwm isel ac y bydd angen help arnoch gan eich Cyngor lleol i dalu'r rhent, a yw'r landlord / asiantaeth gosod tai yn derbyn tenantiaid sy'n cael Lwfans Tai Lleol?

Ydy Nac ydy

## 7 Blaendal/Bond

a) Faint yw'r blaendal a beth mae'n ei gynnwys?_________________________________

___________________________________________________________________________

b) A ddywedodd y landlord/asiantaeth gosod tai wrthych pa Gynllun Diogelu Blaendal Tenantiaeth a gaiff ei ddefnyddio i ddiogelu'r blaendal?

Do Naddo

*Os ydych yn rhentu'ch cartref ar denantiaeth byrddaliad sicr, rhaid i'r landlord roi eich blaendal mewn cynllun diogelu blaendal tenantiaeth o fewn 30 diwrnod o'i gael gennych.*

c) Os ydych ar incwm isel a methu fforddio'r blaendal, a fydd y landlord/asiantaeth gosod tai yn derbyn bond di-arian?

Bydd Na fydd

## 8 Cyflwr yr Eiddo

a) A yw'r eiddo'n cael ei gynnal a'i gadw'n rhesymol?

Ydy Nac ydy

b) A yw fframiau'r ffenestri mewn cyflwr da ac a yw'r ffenestri'n agor ac yn cau'n hawdd?

Ydyn Nac ydyn

c) A oes unrhyw lechi neu deils coll ar y to?

Oes Nac oes

d) A yw'r tu mewn i'r eiddo mewn cyflwr rhesymol?

Ydy Nac ydy

e) Oes angen gwneud unrhyw waith trwsio?

__________________________________________

---

f) A fydd y gwaith trwsio'n cael ei wneud cyn i chi symud mewn?

Bydd Na fydd

g) A fydd y landlord/asiantaeth gosod tai yn rhoi sicrwydd i chi o hyn yn ysgrifenedig?

Bydd Na fydd

h) A yw'r eiddo'n lân?

Ydy Nac ydy

i) A oes unrhyw blâu yno e.e. llygod, malwod?

Oes Nac oes

j) Os ydych chi'n gyrru car, oes rhywle gerllaw lle y gallwch ei barcio?

Oes Nac oes

k) Oes rhywle i storio pethau fel teganau, beiciau ac ati y tu allan i'r eiddo?

Oes Nac oes

*Mae'n syniad da cymryd lluniau o'r tu allan a'r tu mewn i'r eiddo fel bod gennych gofnod o'i gyflwr pan fyddwch yn symud mewn.*

## 9 Dodrefn

Os oes dodrefn yn yr eiddo

a) Sut gyflwr mae'r dodrefn ynddo? ______________________________________________

___________________________________________________________________________

b) Oes digon o ddodrefn i'ch teulu?

Oes Nac oes

c) Yw'r dodrefn yn gallu gwerthsefyll tân?

Ydy Nac ydy

d) Oes rhestr eiddo ar gael?

Oes Nac oes

Os na, lluniwch restr eich hun pan fyddwch yn symud mewn (h.y. rhestrwch yr eitemau a ddarparwyd yn yr eiddo a'u cyflwr). Yna dylech lofnodi a dyddio'r rhestr a'i rhoi i'ch landlord/asiantaeth gosod tai. Mae'n syniad da cymryd lluniau o'r dodrefn - gall y rhain fod yn rhan o'r rhestr eiddo.

## 10 Manylion Cyswllt

g) Oes gennych chi gyfeiriad/rhif ffôn y landlord/asiantaeth gosod tai rhag ofn bod argyfwng?

Oes Nac oes

---